LEFEL 3

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

MEDI 2019

Cynnwys

	Rhif tudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion y pwnc	4
Cynnwys y pwnc	4
Cynllun asesu	5
Amcanion asesu	6
Canlyniadau	7
Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo	7
Gofynion rhesymegol	7
Gofynion gweithredol	8
Atodiad A	10
Atodiad B	

Mae hon yn **Ddogfen Reoliadol** o dan **Amod B7** *Amodau Cyffredinol Cydnabod (mis Hydref 2018)*[1]*: Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddiol.*

[1] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi meini prawf cymeradwyo'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu drwy ymgysylltu gyda rhanddeiliaid, oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion mae'n rhaid i gyrff dyfarnu eu diwallu wrth ddatblygu manylion a deunydd asesu ar gyfer y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

Dylai'r cymhwyster gael ei gynllunio i helpu dysgwyr symud ymlaen at swydd a/neu astudiaeth bellach. Dylai'r cymhwyster hwn atgyfnerthu'r wybodaeth a gafwyd drwy gyflawni Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Cymhwyster craidd. Mae'r cymhwyster hwn yn addas ar gyfer pobl sydd eisiau gweithio, neu sydd yn gweithio, mewn lleoliadau gofal plant rheoledig gyda theuluoedd a phlant o dan 8 oed a gwasanaethau plant y GIG i'r rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0 - 19 oed. Mae elfen ymarferol y cymhwyster hwn yn adlewyrchu elfen ymarferol Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Cymhwyster ymarferol.

Mae'r cynnwys yn adlewyrchu ystod o wahanol swyddi ac oedrannau. Bydd yn rhaid i'r bobl hynny sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant rheoledig gyda phlant 8 – 12 oed hefyd gyflawni cymhwyster gwaith chwarae ychwanegol a nodwyd gan Skills Active.

Dylid cynllunio'r cymhwyster hwn i gael ei ddarparu gan ystod o ddarparwyr dysgu, ar gyfer dysgwyr sy'n 16 oed neu'n hŷn.

Pan fo'n addas, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Daw'r meini prawf cymeradwyo sydd yn y ddogfen hon i rym o fis Medi 2019 a chânt eu hadolygu yn 2022.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ddyfarniad i gyfyngu cyfres newydd o gymwysterau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant[2] ar gyfer addysgu rhaglenni dysgu yng Nghymru a ariennir yn gyhoeddus. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

[2] http://qualificationswales.org/media/2534/230517-determination-to-restrict-hsc-final-w.pdf

Caiff holl gymwysterau'r gyfres eu cyfyngu i un drefn fesul cymhwyster am gyfnod o bum mlynedd. Ar gyfer y cymhwyster hwn, mae'r cyfnod yn cychwyn ar 1 Medi 2020.

Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu gaiff ddyfarnu pob cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2017 a mis Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi cytundebu gyda chonsortiwm o City & Guilds of London Institute a CBAC i ddatblygu a darparu holl gymwysterau'r gyfres ar y cyd.

Dim ond cymhwyster sy'n cwrdd â'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon ynghyd â'r rhai a nodir yn *Amodau Cyffredinol Cydnabod*[3] gaiff ei gydnabod gan Cymwysterau Cymru. Wrth ddatblygu cymwysterau i gwrdd â'r gofynion hyn mae'n rhaid i gyrff dyfarnu ystyried *Mynediad Teg drwy Ddylunio*[4]. Mae'n rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynwyd hefyd gwrdd â'r holl ofynion a nodir yn y *cytundeb consesiwn a ddyfarnwyd* yn ystod y camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a darparu.

Dylai cynnwys pwnc y cymhwyster hwn fod yn gysylltiedig â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol priodol a'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Cymhwyster craidd. Pan fo gofynion y Meinir Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cyffredinol Cydnabod,* y gofynion yn y ddogfen hon fydd yn cael blaenoriaeth.

Strwythur y cymhwyster

1. Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori gynnig ardystiad cymhwyster 720 o Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH) a bydd angen ei ddiffinio yn nhermau Cyfanswm Oriau Cymhwyso (TQT) a chredyd.

2. Mae'n rhaid i'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori gynnwys holl gynnwys pwnc a gofynion asesu Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

3. Mae'n rhaid i ddysgwyr hefyd gwblhau'r cynnwys gwybodaeth orfodol a nodir yn Grŵp B sy'n gyfanswm o 220 GLH. Bydd y cynnwys hwn yn atgyfnerthu ac ymestyn yr wybodaeth mae dysgwyr yn ei hennill yn yr adran ymarfer.

[3] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/
[4] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150727-fair-access-by-design-en.pdf

4. Teitl y cymhwyster ar QiW fydd:

Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

5. Mae'n rhaid i gynllun Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori sicrhau:

5.1 bod nodau ac amcanion y pwnc yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiadau er mwyn galluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth;

5.2 ei fod yn helpu cynnydd dysgwyr o gymwysterau Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

6. Bydd Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn gofyn i ddysgwyr ddangos tystiolaeth eu bod wedi cyflawni 700 awr o brofiad yn y gweithle, un ai drwy brofiad gwaith neu drwy weithio.

7. Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori nodi unrhyw reolau cyfuno.

8. Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori nodi'r datganiad canlynol:

'Mae'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mae gofyn i ddysgwr eu cyflawni o fewn y cymhwyster hwn yn datblygu ar gynnwys y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Cymhwyster craidd. Rydyn ni'n argymell yn gryf y dylai dysgwr sy'n astudio'r cymhwyster hwn fod wedi cwblhau neu wrthi'n astudio Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Cymhwyster craidd. Noder bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn datgan bod rhaid i berson sy'n gweithio yn y sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gwblhau'r cymhwyster

- *Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Cymhwyster craidd*

a

- *Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori er mwyn gallu gweithio mewn swyddi penodol.*

Am ragor o wybodaeth am ofynion gweithio yn y sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant, ewch i wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.'

Nodau ac amcanion y pwnc

9. Mae'n rhaid i Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori alluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac arferion mewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn benodol, dylai dysgwyr allu dangos eu bod nhw'n:

    9.1 deall, a defnyddio'n ymarferol, yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n ategu gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant;

    9.2 deall, a defnyddio'n ymarferol, ddulliau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant sy'n seiliedig ar blant

    9.3 hybu a chefnogi datblygiad plant drwy eu harferion eu hunain;

    9.4 gwerthfawrogi ymchwil a damcaniaethau er mwyn cefnogi arferion;

    9.5 ymwybodol o'r prif bolisïau yn y sector a deall sut mae'r rhain yn effeithio ar ddatblygu a darparu'r gwasanaeth;

    9.6 gweithio mewn partneriaeth gyda phlant, eu teuluoedd, gofalwyr ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol;

    9.7 myfyrio ar arferion er mwyn gwella'n barhaol;

    9.8 defnyddio amrywiaeth o dechnegau datrys problemau;

    9.9 defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn eu swydd.

Cynnwys y pwnc

10. Mae'n rhaid i gynnwys manyleb Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

11. Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori gynnwys:

    - y cynnwys ymarfer a nodir yn Grŵp A; a
    - y cynnwys gwybodaeth orfodol a nodir yn Grŵp B.

Cynllun asesu

12. Mae'n rhaid defnyddio deilliannau dysgu er mwyn asesu'r cynnwys ymarfer gorfodol a dewisol (Grŵp A) ac mae'n rhaid defnyddio amcanion asesu i asesu'r cynnwys gwybodaeth (Grŵp B). Mae'n rhaid i'r fanyleb nodi pa gynnwys sy'n orfodol.

13. Caiff Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori ei asesu drwy 70% o asesu mewnol 30% o asesu allanol.

14. Bydd yr asesu mewnol:

    14.1 yn cynnwys ymarfer gorfodol a dewisol (Grŵp A);

    14.2 yn cynnwys amrywiaeth o dasgau sy'n seiliedig ar ymarfer a osodir yn allanol ac a farcir yn fewnol, a phortffolio o dystiolaeth;

    14.3 yr un mor anodd ar gyfer pob dysgwr, waeth pa asesiad sy'n cael ei gyflawni;

    14.4 yn nodi'r math a'r maint o dystiolaeth gaiff ei chasglu er pwrpasau asesu.

15. Bydd yr asesu allanol:

    15.1 yn asesu'r cynnwys gwybodaeth orfodol (Grŵp B), gan ddefnyddio'r amcanion asesu a'r pwysoliadau a amlinellir isod;

    15.2 yn cynnwys arholiad a thasg ymchwilio.

16. Mae'n rhaid cael tystiolaeth o ddeilliannau dysgu'r cynnwys ymarfer gorfodol a dewisol a astudiwyd (Grŵp A) drwy'r asesiad mewnol.

17. Mae'n rhaid trafod yr holl gynnwys gwybodaeth orfodol (Grŵp B) yn yr asesu allanol yn ystod oes y fanyleb.

18. Mae'n rhaid i'r cynllun asesu sicrhau:

    18.1 y caiff y meini prawf a'r gofynion ar gyfer yr ymarfer a gyflawnir, ac asesiad yr ymarfer hwn, eu nodi'n fanwl;

    18.2 y caiff unrhyw amodau a ganiateir ar gyfer asesu drwy efelychu eu nodi'n fanwl, gan gynnwys beth fyddai amgylchedd gwaith realistig.

19. Mae'n rhaid i'r mathu o gwestiynau, pan fo'n briodol, roi cyfle i ddysgwyr ddarparu cymysgedd o ymatebion byr ac estynedig.

20. Mae'n rhaid i feini prawf marcio nodi sut mae pob cwestiwn neu dasg asesu yn berthnasol i'r amcanion asesu neu'r deilliannau dysgu.

21. Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori gynnwys manylion y cyfleoedd asesu, gan gynnwys ailsefyll arholiadau.

Amcanion asesu

22. Mae'n rhaid i asesiadau o'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd eu hangen yn y fanyleb dargedu'r amcanion asesu[5] canlynol yn unol â'r pwysoliadau a nodir:

Nod	Gofynion	Pwysoliadau
AO1	Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i leoliadau a chyd-destunau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.	Lleiafswm o 20%
AO2	Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth i ddadansoddi arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth (eich rhai chi, neu rai pobl eraill) o fewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.	Lleiafswm o 25%
AO3	Ymchwilio a gwerthuso damcaniaethau ac arferion sy'n gysylltiedig â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant a myfyrio ar sut y gallan nhw ddylanwadu ar arferion.	Lleiafswm o 35%

<u>Y rhesymeg ofynnol:</u> wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo, bydd yn rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu rhesymeg ynghylch sut y penderfynwyd ar bwysoliadau terfynol yr amcanion asesu, gan gynnwys a fyddan nhw'n sefydlog ar hyd oes y cymhwyster neu'n amrywio o gyfres i gyfres

[5] Dim ond cynnwys Grŵp B fydd yr amcanion asesu yn ei asesu.

Deilliannau

23. Caiff dysgwyr sy'n cwblhau pob asesiad gofynnol (gan ddiwallu unrhyw reolau cyfuno) eu hardystio. Caiff cyrhaeddiadau dysgwyr eu gwahaniaethu drwy Pasio, Teilyngdod, Rhagoriaeth, Rhagoriaeth*

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

24. Wrth gyflwyno cymhwyster i'w gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, mae'n rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu:

    24.1 manyleb;

    24.2 detholiad cynrychiadol o sampl o ddeunyddiau asesu;

    24.3 dogfen esboniadol (dogfen rhesymeg) sy'n amlinellu'r rhesymeg y tu ôl i brif nodweddion cynllunio'r cymhwyster a gynigir a sut maen nhw'n alinio â chasgliadau *Adolygiad y Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae*[6].

Gofynion rhesymegol

25. Pwrpas y ddogfen rhesymeg yw cefnogi'r adolygiad cymwysterau a'r broses gymeradwyo ac ni chaiff ei chyhoeddi.

26. Mae'n rhaid i'r ddogfen rhesymeg gynnwys esboniad dros:

    26.1 strwythur y cymhwyster, gan esbonio'r rhesymau dros y ffordd mae'r cynnwys wedi cael ei strwythuro;

    26.2 dull datblygu ac adfywio tasgau dros amser;

    26.3 y strwythur asesu gan gynnwys, pan fo'n briodol, y nifer, dyraniad y marciau a hyd asesiadau;

    26.4 dadansoddiad o'r amcanion asesu neu'r deilliannau dysgu os ydyn nhw'n berthnasol, a sut y penderfynwyd ar sut i wasgaru'r amcanion asesu neu'r deilliannau dysgu ar hyd a lled ac o fewn yr asesiadau;

[6] https://qualifications.wales/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

26.5 cynllun sampl o ddeunyddiau asesu, gan gynnwys y math ac ystod o dasgau asesu ar hyd a lled y cymhwyster, a'u perthynas â'r amcanion asesu neu'r deilliannau dysgu;

26.6 sut y cynllunnir a defnyddir y meini prawf marcio;

26.7 sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig;

26.8 y broses gosod a chynnal safonau yn y cymhwyster;

26.9 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys rhesymeg dros y ffiniau gradd a gynigir wrth asesu a dyfarnu'r cymhwyster.

Gofynion gweithredol

27. Mae'n rhaid i'r fanyleb a/neu'r wybodaeth atodol nodi'r gofynion gwybodaeth a gallu (pwnc ac asesu/sicrwydd ansawdd), ar gyfer aseswyr, aswirwyr ansawdd mewnol ac aswirwyr ansawdd allanol.

28. Mae'n rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys manylion eglur o'r gofynion gweithredol, gan gynnwys:

28.1 ceisiadau;

28.2 sicrwydd ansawdd;

28.3 prosesau asesu allanol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

enquiries@qualificationswales.org

Atodiad A – Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori gynnwys y cynnwys a'r deilliannau dysgu canlynol. Mae hyn yn 100% o holl gynnwys a deilliannau dysgu'r cymhwyster hwn.

Grŵp A: Cynnwys ymarferol

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys ymarferol gorfodol a dewisol y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

1. Hyrwyddo ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant

Maes pwnc	Maes is-bwnc
1.1 Egwyddorion a gwerthoedd	- Deddfwriaeth, polisïau, canllawiau a fframweithiau cenedlaethol - Dulliau sy'n seiliedig ar hawliau - Dulliau plant-ganolog - Gadael i blant gymryd risgiau - Llesiant - Perthnasoedd cadarnhaol a ffiniau proffesiynol - Cyfathrebu - Y Gymraeg a diwylliant Cymru - Dulliau gweithredu cadarnhaol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol - Myfyrio
1.2 Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant	- Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant - Amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer iechyd, llesiant, datblygiad dysgu a chwarae plant - Lleferydd, iaith a chyfathrebu - Anghenion cymorth ychwanegol - Gofal corfforol plant - Maeth a hydradu - Rhoi moddion

1.3 Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant	- Rolau a chyfrifoldebau gweithiwr y blynyddoedd cynnar a gofal plant - Gweithio mewn partneriaeth - Gweithio mewn tîm - Ymdrin â gwybodaeth - Ymddygiad personol gweithwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant - Datblygiad proffesiynol parhaus
1.4 Diogelu plant	- Diogelu plant rhag niwed, cam-drin neu esgeulustod - Adrodd a chofnodi mewn perthynas â diogelu
1.5 Iechyd a diogelwch ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant	- Iechyd a diogelwch yn y sefydliad/lleoliad - Asesiadau risg ar gyfer iechyd a diogelwch - Diogelwch tân - Atal a rheoli haint - Diogelwch bwyd - Sylweddau peryglus - Diogelwch yn y sefydliad/lleoliad - Rheoli straen

2. Hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad

Deilliannau dysgu

1. Fframweithiau damcaniaethol sy'n ategu chwarae, dysgu, twf a datblygiad
2. Hybu a chefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol
3. Rôl gynhenid chwarae mewn perthynas â dysgu, twf a datblygiad cyfannol plant

3. Hybu maeth a hydradiad yn y blynyddoedd cynnar

Deilliant dysgu

Cefnogi maeth a hydradiad plant

4. Ymateb i salwch, pla/haint, clefyd ac imiwneiddio mewn plentyndod

Deilliant dysgu

Salwch, pla/haint ac adweithiau i imiwneiddio

5. Hybu gofal plant 0-2 oed

Deilliannau dysgu

1. Darpariaeth gofal plant a gwasanaethau cymorth i blant 0-2 oed
2. Hybu a chefnogi bondio ac ymlyniad i blant 0-2 oed
3. Hybu arferion gofal corfforol diogel plant 0-2 oe

6. Hybu gofal plant 2-3 oed

Deilliannau dysgu

1. Darpariaeth gofal plant a gwasanaethau cymorth i blant 2-3 oed
2. Hybu a chefnogi bondio ac ymlyniad i blant 2-3 oed
3. Hybu'r broses o gefnogi arferion gofal corfforol diogel plant 2-3 oed

7. Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed

Deilliannau dysgu

1. Darpariaeth gofal plant a gwasanaethau cymorth i blant 3-7 oed
2. Cefnogi ymlyniad a gwydnwch ar gyfer plant 3-7 oed
3. Hybu'r broses o gefnogi arferion gofal corfforol diogel plant 3-7 oed
4. Fframweithiau damcaniaethol ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth sy'n ategu gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant 3-7 oed

8. Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi

Deilliannau dysgu

1. Trochi ieithyddol mewn lleoliadau gofal plant
2. Helpu plant i gaffael yr iaith newydd drwy drochi

9. Helpu teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta

Deilliannau dysgu

1. Hawliau a chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gweithio gyda theuluoedd
2. Darpariaeth rhianta cadarnhaol a gwasanaethau cymorth i deuluoedd a'u plant
3. Ffactorau sy'n dylanwadu ar sgiliau rhianta teuluoedd ac yn cael effaith negyddol arnynt
4. Helpu teuluoedd i nodi sgiliau rhianta y mae angen eu meithrin
5. Helpu teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta

10. Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu

Deilliannau dysgu

1. Canllawiau a fframweithiau sy'n cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu
2. Sut y caiff lleferydd, iaith, cyfathrebu a llythrennedd eu datblygu
3. Diwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
4. Gweithio gydag eraill i gefnogi plant sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

11. Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar

Deilliannau dysgu

1. Egwyddorion helpu i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol plant
2. Helpu i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol plant mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu
3. Cydweithio ag eraill i gefnogi ymddygiad

12. Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol

Deilliannau dysgu

1. Canfyddiadau a safbwyntiau ynghylch anghenion ychwanegol
2. Cefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol plant ag anghenion ychwanegol
3. Helpu plant ag anghenion ychwanegol i feithrin gwydnwch yn ystod cyfnodau o newid a phontio
4. Gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd/gofalwyr er mwyn cefnogi pontio effeithiol mewn perthynas â chyfathrebu
5. Gofal Mwy Diogel
6. Myfyrio ar y gofal a chymorth a roddir i blant ag anghenion ychwanegol

13. Cefnogi plant sy'n byw ag epilepsi

Deilliannau dysgu

1. Epilepsi a'i effeithiau
2. Triniaethau ar gyfer epilepsi
3. Deall y gofal a roddir i blant ag epilepsi yn unol â'r cynllun gofal y cytunwyd arno
4. Cymorth a gofal i blant ag epilepsi

14. Helpu i hybu iechyd plant

Deilliannau dysgu

1. Cyfleu gwybodaeth hybu iechyd i blant a theuluoedd/gofalwyr
2. Gweithio gyda phlant a theuluoedd/gofalwyr i hybu newid mewn ymddygiad

15. Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau

Deilliannau dysgu

1. Deddfwriaeth a pholisïau sy'n berthnasol i helpu i fonitro glwcos yng ngwaed y capilarïau
2. Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau

16. Helpu plant i fonitro glwcos

Deilliannau dysgu

1. Deddfwriaeth a pholisïau sy'n berthnasol i helpu i fonitro glwcos
2. Hybu annibyniaeth a diogelwch wrth helpu plant i fonitro glwcos
3. Helpu plant i fonitro glwcos

17. Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan blant

Deilliannau dysgu

1. Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan blant
2. Paratoi samplau gwaed a gymerwyd gan blant i'w prosesu

18. Rhoi gofal i blant sy'n byw â chanser

Deilliannau dysgu

1. Datblygiad a symptomau canser mewn plant
2. Gofal a chymorth sydd ar gael i blant sydd wedi cael diagnosis o ganser
3. Y Gofal a chymorth sydd ar gael i blant sy'n wynebu canser, eu teuluoedd/gofalwyr
4. Gofal a chymorth i blant sydd wedi goroesi canser, a'u teuluoedd/gofalwyr

19. Gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant a phobl ifanc

Deilliannau dysgu

1. Polisïau a phrosesau sy'n ategu'r gwaith o ddarparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant
2. Dulliau plentyn ganolog mewn ar gyfer gofal lliniarol/gofal diwedd oes
3. Pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd/gofalwyr wrth feithrin cydberthnasau cadarnhaol yn ystod gofal lliniarol/gofal diwedd oes
4. Ystyr llesiant yng nghyd-destun gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant
5. Rhoi gofal lliniarol a gofal diwedd oes a chymorth parhaus i blant sy'n byw â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd

20. Rhoi brechiadau trwynol rhag y ffli

Deilliannau dysgu

1. Safonau a gweithdrefnau ar gyfer rhoi brechlynnau ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn
2. Hyrwyddo a rhoi brechlynnau ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn

21. Rhoi gofal stoma

Deilliannau dysgu

1. Gofal stoma
2. Sut i gynnal urddas unigolyn wrth roi gofal stoma
3. Ffactorau sy'n effeithio ar ddarpariaeth gofal stoma
4. Rhoi gofal stoma i unigolion
5. Defnyddio arferion gofal person ganolog er mwyn helpu unigolion/teuluoedd/gofalwyr i ofalu am eu stomata

22. Gofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth

Deilliannau dysgu

1. Deall deddfwriaeth a ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt wrth ofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth
2. Gwella a halogi clwyfau
3. Y gweithdrefnau a thechnegau ar gyfer trin a gorchuddio briwiau a chlwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth
4. Paratoi i orchuddio briwiau a chlwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth
5. Cyflawni triniaethau i orchuddio clwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth

23. Ymgymryd â sgrinio golwg

Deilliannau dysgu

1. Ymgymryd â thechnegau bwydo gyda thiwb
2. Darparu sgrinio golwg i blant rhwng 4 a 5 oed yn yr ysgol

24. Cynnal profion sgrinio'r golwg ar gyfer plant oed ysgol

Deilliannau dysgu

1. Egwyddorion a chyd-destun polisi mewn perthynas â sgrinio'r clyw
2. Darparu gwasanaethau sgrinio'r clyw i blant

25. Awtochwistrellu adrenalin

Deilliant dysgu

Helpu i ddefnyddio dyfeisiau awtochwistrellu adrenalin yn ddiogel

26. Cefnogi rhieni newydd a rhieni beichiog

Deilliannau dysgu

1. Iechyd a llesiant mewn perthynas â dulliau atal cenhedlu a gofal cynenedigol
2. Canllawiau mewn perthynas â chyngor a gwybodaeth i rieni am iechyd a llesiant babanod newydd-anedig
3. Y gofynion o ran iechyd a llesiant babanod newydd-anedig a'u rhieni
4. Rhoi cyngor i rieni ar ddiwallu anghenion iechyd a llesiant babanod newydd-anedig

27. Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref

Deilliannau dysgu

1. Gofynion deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau rheoleiddio ar gyfer gofal plant yn y cartref
2. Gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd/gofalwyr ym maes gofal plant yn y cartref
3. Iechyd a llesiant ym maes gofal plant yn y cartref
4. Arferion, newidiadau a chyfnodau pontio ym maes gofal plant yn y cartref
5. Datblygiad cyfannol plant mewn gofal plant yn y cartref
6. Gymraeg a diwylliant Cymru
7. Ymarfer proffesiynol ym maes gofal plant yn y cartref

28. Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant

Deilliannau dysgu

1. Cofrestru fel gwarchodwr plant yng Nghymru
2. Ymarfer proffesiynol ym maes gwarchod plant
3. Iechyd a llesiant mewn lleoliad gwarchod plant
4. Iechyd a llesiant mewn lleoliad gwarchod plant

29. Hwyluso dysgu mewn grŵp

Deilliannau dysgu

1. Cynllunio a pharatoi sesiynau hyfforddi
2. Hwyluso sesiynau hyfforddi
3. Adolygu a gwerthuso sesiynau hyfforddi

30. Cefnogi unigolion drwy fwydo gyda thiwb

Deilliannau dysgu

1. Canllawiau, polisïau a phrotocolau cyfredol sy'n ymwneud â bwydo gyda thiwb
2. Ymgymryd â thechnegau bwydo gyda thiwb

31. Cefnogi plant sy'n byw â diabetes mellitus

Deilliannau dysgu

1. Beth sy'n achosi diabetes a ffyrdd o'i drin
2. Pwysigrwydd dulliau plentyn ganolog wrth gefnogi plant sy'n byw â diabetes
3. Helpu plant a'u teuluoedd/gofalwyr i reoli eu diabetes
4. Pwysigrwydd maeth i blant sy'n byw â diabetes
5. Defnyddio dulliau plant ganolog i gefnogi plant a'u helpu i reoli eu diabetes yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu

32. Ymateb i adweithiau anaffylactig

Deilliant dysgu

Ymateb yn ddiogel i adwaith anaffylactig

33. Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant

Deilliannau dysgu

1. Achosion ac effeithiau diffyg anadl
2. Achosion ac effeithiau asthma
3. Sut y gellir rheoli asthma
4. Y cymorth sydd ei angen ar blant i reoli pyliau acíwt o asthma
5. Helpu plant a'u teuluoedd/gofalwyr i reoli diffyg anadl ac asthma

34. Cefnogi gofal ymataliaeth mewn plant

Deilliannau dysgu

1. Helpu plant i reoli eu hymataliaeth
2. Cefnogi plant ag anymataliaeth wrinol
3. Cefnogi plant ag anymataliaeth ymgarthol

35. Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli

Deilliannau dysgu

1. Anatomeg a ffisioleg sy'n gysylltiedig â chodi a chario a symud a lleoli
2. Paratoi i gynorthwyo unigolion o ran symud a lleoli
3. Cynorthwyo unigolion o ran symud a lleoli

36. Cyflwyniad i fesuriadau ffisiolegol mewn plant

Deilliannau dysgu

1. Ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt ar gyfer ymgymryd â mesuriadau ffisiolegol
2. Ymgymryd â mesuriadau ffisiolegol

37. Cynnal profion pwynt gofal

Deilliannau dysgu

1. Canllawiau, polisïau a phrotocolau sy'n gysylltiedig â phrofion pwynt gofal
2. Cynnal profion pwynt gofal

38. Casglu sbesimena

Deilliannau dysgu

1. Canllawiau, polisïau a phrotocolau sy'n gysylltiedig â chasglu sbesimenau
2. Casglu sbesimenau

Grŵp B

Cynnwys theori gorfodol: egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru ac ar draws y DU

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys gwybodaeth orfodol y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

Meysydd Pwnc	
DD1 Ymagweddau ymddygiad cadarnhaol i gefnogi datblygiad cyfannol	1.1: Datblygiad 0-19 oed a'r ffordd y mae meysydd yn cydberthyn fel rhan o ddatblygiad cyfannol 1.2: Hybu iechyd, llesiant a datblygiad cyfannol o adeg cenhedlu hyd at 19 oed 1.3: Ffactorau cyfredol a chyfoes a'u heffaith ar iechyd a llesiant
DD2 Ymagweddau ymddygiad cadarnhaol i gefnogi datblygiad cyfannol	2.1: Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad 2.2: Cefnogi ymddygiad cadarnhaol
DD3 Darpariaeth gofal iechyd sydd ar gael yng Nghymru o adeg cenhedlu hyd at 19 oed a'r ffordd y mae'n cefnogi iechyd a llesiant	3.1: Sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd ar blant o'u cenhedlu hyd at 19 oed 3.2: Effaith sgrinio, monitro a chynnal profion nad ydynt yn rheolaidd ar blant o'u cenhedlu hyd at 19 mlwydd oed 3.3: Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector

Meysydd Pwnc	
DD4 Egwyddorion er mwyn sicrhau dysgu cynhwysol ar gyfer pob plentyn 0-19 oed	4.1: Hybu dysgu 0-19 oed 4.2: Cefnogi a herio plant i weithio tuag at nodau a thargedau 4.3: Ymyrryd yn gynnar er mwyn hybu dysgu ac iechyd a llesiant 4.4: Sut y gellir gwella canlyniadau i blant mewn gwahanol leoliadau gofal plant drwy wahaniaethau a myfyrio
DD5 Effaith meddwl traddodiadol a chyfoes ar ddatblygiad cyfannol plant	5.1: Sut mae safbwyntiau a dulliau damcaniaethol yn llywio ymarfer 5.2: Sut mae'r fframweithiau cwricwlwm statudol yng Nghymru yn ategu ymarfer 5.3: Effaith ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ar ddeddfwriaeth a mentrau cyfredol y llywodraeth 5.4: Effaith deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau, dulliau gweithredu a mentrau cyfredol y llywodraeth ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant